# Canllaw arfer da: gwarchod llygod y dŵr yn ystod gweithrediadau rheoli coetir a gwaith coed

*Fersiwn 1.0 Mai 2026*

Os ydych chi'n dibynnu ar ddilyn arferion da i gadw o fewn y gyfraith, yna:

- mae'n **rhaid** cymryd [mesurau osgoi rhesymol i warchod llygod y dŵr]
- **dylech** ddilyn cymaint o'r [pum cam gweithredu gorau i wella cynefin i llygod y dŵr] ag y gallwch

## Cyflwyniad

Mae llygoden y dŵr yn un o'r rhywogaethau o famaliaid sy'n dirywio gyflymaf ym Mhrydain Fawr ac mae bellach yn cael ei hystyried i fod mewn perygl difrifol yng Nghymru. Ar un adeg roedd y rhywogaeth yn eang ei gwasgariad ar draws afonydd, nentydd a gwlyptiroedd Cymru, ond mae wedi dioddef dirywiad o 90% dros y 30 mlynedd diwethaf, wedi'i yrru gan golled cynefinoedd, llygredd, ac ysglyfaethu gan y minc Americanaidd goresgynnol.

Ystyrir bod llygod y dŵr wedi diflannu o rannau o Gymru bellach. Mae eu dosbarthiad presennol yn ffracsiwn o'r hyn ydoedd 60 mlynedd yn ôl, er bod ymdrechion cadwraeth wedi'u targedu wedi helpu i sefydlogi poblogaethau mewn rhai ardaloedd allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys adfer cynefinoedd, rheoli mincod, a rhaglenni monitro ac ailgyflwyno a arweinir gan y gymuned.

Mae llygod y dŵr yn byw mewn afonydd a nentydd sy'n llifo'n araf, camlesi, gwelyau cyrs a chorsydd, gan ffafrio ardaloedd â llystyfiant tal a thrwchus sy'n darparu bwyd, gorchudd a deunydd nythu. Gallant hefyd ffynnu mewn ardaloedd ucheldir, a all weithredu fel llochesi i boblogaethau ac fel poblogaethau ffynhonnell ar gyfer ardaloedd iseldir. Mae afonydd a gwlyptiroedd o fewn cynefinoedd coetir yn aml yn addas ar gyfer llygod y dŵr.

Mae llygod y dŵr yn adeiladu systemau turio helaeth mewn glannau serth, uwchben ac islaw wyneb y dŵr, a, lle mae cynefin gwlyptir yn addas, gallant fod wedi'u lleoli mewn ardal llawer ehangach na chyfyngiadau llinol cwrs dŵr. Mae eu presenoldeb wedi'i gysylltu'n agos ag ansawdd a chysylltedd cynefinoedd torlannol.

Fel rhywogaeth sy'n cael ei blaenoriaethu ar gyfer cadwraeth yng Nghymru, mae adferiad llygoden y dŵr yn dibynnu ar ymdrechion parhaus ar draws sectorau i adfer cynefinoedd,

rheoli rhywogaethau goresgynnol, ac ymgysylltu â chymunedau lleol ar gyfer ymdrechion stiwardiaeth hirdymor.

# Sut mae llygod y dŵr yn cael eu gwarchod?

Mae llygod y dŵr yn rhywogaeth a warchodir yn y DU o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi gymryd camau rhesymol i osgoi eu niweidio mewn ffordd a fyddai'n drosedd, fel eu lladd neu eu hanafu'n fwriadol, neu ddifrodi, dinistrio neu rwystro mynediad i'w tyllau yn fwriadol neu'n ddi-hid, neu eu haflonyddu tra byddant yn defnyddio eu tyllau.

Er y dylech chi bob amser anelu at osgoi unrhyw niwed i rywogaethau a warchodir, mae amddiffyniad ar gael os bydd niwed i lygod y dŵr yn digwydd fel 'canlyniad damweiniol i weithrediad cyfreithlon' ac 'na ellid yn rhesymol fod wedi'i osgoi'. I ddibynnu ar yr amddiffyniad hwn, bydd angen i chi allu dangos eich bod wedi cymryd pob cam rhesymol i leihau effaith eich gweithrediad ar y rhywogaeth. Mae dangos eich bod wedi dilyn y mesurau yn y canllaw arfer da hwn yn un ffordd o ddangos eich bod wedi gwneud hyn.

Er y gall rheoli coetiroedd gyfrannu at gynnal yr amodau cynefin y mae eu hangen ar lygod y dŵr, fe all hefyd fod yn niweidiol os na chaiff mesurau eu rheoli'n sensitif, yn enwedig os ydynt yn effeithio ar lannau cyrsiau dŵr lle mae gan lygod y dŵr eu tyllau.

Os na allwch osgoi trosedd drwy ddilyn y canllawiau hyn, efallai y bydd ecolegydd cymwys yn gallu datblygu ffyrdd gweithio amgen, penodol i'r safle, i'ch galluogi i lynu wrth y gyfraith. Os nad yw hynny'n bosibl, efallai y bydd angen i chi ailystyried eich cynlluniau.

Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru y pŵer i gyhoeddi trwyddedau sy'n caniatáu niwed i rywogaethau a warchodir yn y DU at ddibenion coedwigaeth.

# A yw llygod y dŵr yn defnyddio eich coetir?

Gyda Chymdeithas y Mamaliaid, rydym wedi cynhyrchu canllaw, *Rhywogaethau gwarchodedig mewn coetiroedd: canllaw maes ar gyfer rheolwyr coetiroedd yng Nghymru*, sy'n cynnwys cyngor penodol ar sut i gynnal arolygon i wirio am rywogaethau a warchodir.

## Gwirio am gofnodion

Os oes gennych gwrs dŵr o fewn eich ardal waith, dylech wirio a oes cofnodion o lygod y dŵr o fewn 1 km ohono. Os oes, dylech gymryd yn ganiataol y gallai llygod y dŵr fod yn bresennol.

Os byddwch yn gwneud cais am drwydded cwympo coed, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwirio am gofnodion. Os byddwn yn dod o hyd i gofnodion sy'n awgrymu presenoldeb llygod y dŵr, byddwn fel arfer yn ychwanegu amod amgylcheddol at eich trwydded cwympo coed yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddilyn y mesurau yn y canllaw hwn.

# Arolwg ar droed

Dylech wirio unrhyw gwrs dŵr yn eich ardal waith am arwyddion o lygod y dŵr, neu eu tyllau, os ydych chi o fewn 1 km i gofnod. Os nad oes unrhyw gofnodion, dylech barhau i fod yn wyliadwrus am eu presenoldeb oherwydd bod rhai poblogaethau yn anhysbys.

Bydd *Rhywogaethau gwarchodedig mewn coetiroedd: canllaw maes ar gyfer rheolwyr coetiroedd yng Nghymru* yn cynorthwyo unigolyn cymwys i wneud hyn.

Cyn y gallwch chi weithredu'r mesurau osgoi yn yr adran nesaf, bydd angen i chi fod wedi sefydlu'r canlynol:

1. P'un a oes cyrsiau dŵr o fewn eich ardal waith, neu gerllaw iddi, ac, os felly:

    a. A oes cofnodion o lygod y dŵr o fewn 1 km i'ch ardal waith a/neu unrhyw arwyddion maes sy'n nodi eu presenoldeb

    b. Lleoliad unrhyw dyllau llygod y dŵr os ydych chi'n bwriadu creu croesfan newydd

# Mesurau osgoi rhesymol i amddiffyn llygod y dŵr

Os ydych chi'n dibynnu ar ddilyn yr arferion da hyn i gadw o fewn y gyfraith, bydd angen i chi lynu wrth y mesurau canlynol. Os na allwch wneud hyn, efallai y bydd ecolegydd cymwys yn gallu awgrymu mesurau lliniaru penodol i'r safle a allai ganiatáu ichi wyro oddi wrth y mesurau safonol hyn heb achosi trosedd. Os nad yw hyn yn bosibl, efallai y bydd angen i chi newid eich cynlluniau.

Os byddwch yn dod o hyd i dystiolaeth o'r rhywogaeth yn annisgwyl yn ystod gwaith, dylech ystyried a allwch gymhwyso'r mesurau yn y canllaw hwn neu geisio cyngor gan ecolegydd cymwys.

Wrth weithio ger cwrs dŵr lle mae tystiolaeth (cofnodion neu arwyddion maes) yn dangos bod llygod y dŵr yn bresennol, dylid glynu wrth y canlynol:

**1. Diogelu cyrsiau dŵr a'u glannau**

- Peidiwch â chaniatáu i beiriannau trwm (peiriannau cynaeafu, cerbydau cludo coed ac ati) weithredu o fewn 10 metr i ben unrhyw lan afon.
- Peidiwch â phentyrru pren o fewn 10 metr i ben unrhyw lan afon.
- Osgowch amharu ar lystyfiant o fewn 5 metr i ben lan afon.

**2. Chwilio am dyllau llygod y dŵr os ydych chi'n gwneud croesfannau newydd**

- Cyn gwneud croesfan newydd dros gwrs dŵr, rhaid i chi wirio am dystiolaeth o dyllau llygod y dŵr.
- Lle bynnag y bo modd, dylid gwneud unrhyw bwyntiau croesi newydd fwy na 10 metr o unrhyw dwll llygod y dŵr.

# Y pum cam gweithredu gorau i wella cynefin ar gyfer llygod y dŵr

Gall rheoli eich coetir yn unol â Safon Coedwigaeth y DU ddod â buddion sylweddol i fywyd gwyllt. Byddai'r camau gweithredu isod yn arbennig o werthfawr i lygod y dŵr, a byddant hefyd yn cefnogi llawer o rywogaethau eraill:

1. **Cynnal ac adfer llystyfiant ar lan yr afon**

Darparwch ymylon llydan, heb eu torri (rhwng 2 a 5 metr yn ddelfrydol) o laswellt tal, hesg, brwyn, a phlanhigion sy'n codi o'r dŵr ar hyd cyrsiau dŵr. Osgowch gysgodi gormodol gan orchudd coed trwchus; mae cysgod ysgafn gan lwyni fel mieri yn fuddiol.

2. **Diogelu a gwella cynefinoedd turio**

Sicrhewch lannau meddal, heb eu amharu ar gyfer adeiladu tyllau. Osgowch blannu coed neu weithio peiriannau trwm ar lannau lle mae llygod y dŵr yn bresennol, oherwydd y gall hyn niweidio tyllau.

3. **Cynnal ansawdd dŵr a lefelau dŵr sefydlog**

Mae angen dŵr sy'n llifo'n araf, neu ddŵr llonydd, â dyfnder o leiaf 0.3 metr drwy gydol y flwyddyn ar lygod y dŵr i gadw mynedfeydd tyllau yn ddiogel rhag ysglyfaethwyr a llifogydd ac atal llygredd a gormod o siltio.

4. **Rheoli ysglyfaethwyr a lleihau aflonyddwch**

Gweithredwch y broses o reoli mincod Americanaidd pan fo'n ymarferol, gan mai ysglyfaethu gan fincod yw un o brif achosion dirywiad llygod y dŵr. Torrwch lystyfiant ar ddiwedd yr haf a thorrwch lannau bob yn ail i gynnal ardaloedd lloches.

5. **Gwella cysylltedd cynefinoedd**

Cysylltwch gynefinoedd addas ar hyd cyrsiau dŵr a rhwng gwlyptiroedd i ganiatáu gwasgariad ac i gryfhau poblogaethau. Defnyddiwch rodfeydd coetiroedd, coridorau torlannol a nodweddion gwlyptir cysylltiedig i leihau ynysigrwydd.

# Gwybodaeth bellach

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ddefnyddiol am dechnegau arolygu a dulliau rheoli cadarnhaol ar gyfer llygod y dŵr yma:

Rhywogaethau gwarchodedig mewn coetiroedd: canllaw maes ar gyfer rheolwyr coetiroedd yng Nghymru

Canllawiau ar gyfer creu coetiroedd lle mae llygod y dŵr yn bresennol (cyfoethnaturiol.cymru)

The Water Vole Mitigation Handbook (e-lyfr) – Cymdeithas y Mamaliaid. Mae'r fersiwn e-lyfr ar gael i'w phrynu.